

## Adroddiad Ymgynghori

### **Romilly Road – Gwaredu Culhau Blaenoriaeth**

#### **Rhif Project: CO19047**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 2 Awst 2019 a 23 Awst 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fo modd.

O'r oddeutu 30 o eiddo yr ymgynghorwyd â nhw, a'r 3 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 2 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod fel a ganlyn:

- 1 – Gwrthwynebu'r cynnig
- 1 - Wedi cyflwyno sylwadau ond heb ddweud a yw'n cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig

Crynohir y gofidiau a'r sylwadau isod mewn ysgrifen italig, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

#### Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn gwaredu'r mesurau culhau sy'n rhoi blaenoriaeth ar Romilly Road gan osod croesfan sebra ddirchafedig ymwithiol yn eu lle. Bydd hyn yn helpu i leihau cyflymderau cerbydau ar hyd y llwybr hwn a fydd yn gwella diogelwch ar y ffordd cyffredinol yn yr ardal ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd.

#### **Gweler isod y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:**

“Rwy'n cefnogi'n eang gwaredu'r mesurau culhau, ond bydd y project hwn y cynyddu cyflymderau, gan wneud croesi'r ffordd yn fwy peryglus, a'i gwneud yn fwy peryglus i gerbydau sy'n dod allan o Romilly Place.

“Hoffwn i godi pryder ar y cynnig i waredu'r mesurau culhau ar Romilly Road. Ar hyn o bryd mae'r mesurau culhau'n gweithredu fel toriad traffig i bob gyrrwr sy'n ymuno â Romilly Place o Romilly Place. Mae'r toriad hwn yn eithriadol ddefnyddiol yn benodol wrth orfod troi i'r dde o Romilly Place.

Byddai gwaredu'r mesurau culhau hyn yn gwneud ymuno â Romilly Road yn drafferthus ac rwy'n awgrymu bod hyn yn cael ei ystyried”

*Cytunir bod y mesurau culhau presennol yn helpu cerbydau sy'n troi i'r dde o Romilly Place i Romilly Road gan eu bod yn gallu ymuno y tu ôl i unrhyw draffig sy'n mynd tua'r dwyrain trwy'r mesurau culhau, ac yn y bôn maen nhw'n cael blaenoriaeth dros gerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin ar Romilly Road. Bydd cael gwared ar y mesurau culhau â blaenoriaeth hyn yn golygu y bydd cyffordd Romilly Road / Romilly Place yn gweithredu fel cyffordd blaenoriaeth gyffredin, yn gyson â chyffyrdd eraill o amgylch y Ddinas, lle mae gyrrwyr yn gorfod tynnu allan pan fo'n ddiogel i wneud hynny.*

*Ar hyn o bryd mae cerbydau ar Romilly Road yn gorfod arafu neu stopio dim ond pan fo cerbydau sy'n teithio i'r cyfeiriad arall yn dod yn eu herbyn. Felly, pan fo cerbydau yn teithio trwy'r mesurau culhau hyn os nad oes cerbydau yn teithio i'r cyfeiriad arall, gall cerbydau barhau ar hyd y llwybr hwn heb arafu. Drwy gyflwyno byrddau arafu bydd yn sicrhau bod cerbydau sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad yn gorfod lleihau eu cyflymder p'un a oes cerbydau yn teithio i'r cyfeiriad arall neu beidio.*

*Cynigir gwneud ochr ddeheuol y Groesfan Sebra Ddyrchafedig yn rhwystr ymwithiol, bydd hyn yn alinio cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fel na fyddant yn agos at ymyl y cwrbyn a bydd hynny'n gwella gwelededd cerbydau sy'n gadael Romilly Place o'r cerbydau hyn. Bydd hyn hefyd yn lleihau lled y briffordd y mae'n rhaid i gerddwyr ei chroesi yma, sy'n gwella diogelwch i gerddwyr sy'n croesi wrth y lleoliad hwn.*

### Mater – Diogelwch Croesfan Sebra

“Bydd gwaredu'r mesurau culhau'n gwneud hyn hyd yn oed yn fwy peryglus i yrwyr.

Fel defnyddiwr rheolaidd o'r groesfan hon, rwyf hefyd yn gwybod y bydd y project hwn yn gwneud croesi'r ffordd yn fwy peryglus i gerddwyr.


Rwyf wedi cwyno i'r cyngor a gwleidyddion wedi'u hethol sawl gwaith am ddiogelwch ar groesfannau sebra eraill yn yr ardal, heb effaith.

Mae'n glir i unrhyw gerddwr yng Nghaerdydd fod llawer o yrwyr yn anwybyddu croesfannau sebra.

Mae cyngor yn newid croesfannau sebra heb ystyried y ffaith hon yn afresymol.”

*Nid yw'r hanes o wrthdrawiadau yn dangos bod broblem diogelwch ar y ffordd benodol yn y lleoliad hwn. Yn yr un modd â phob croesfan i gerddwyr, dylai cerddwyr bob amser wirio bod traffig wedi stopio cyn dechrau croesi (rheol 18 Rheolau'r Ffordd Fawr) ac wrth groesfannau sebra “rhoi digon o amser i draffig i'w gweld ac i stopio cyn dechrau croesi.” (Rheol 19 Rheolau'r Ffordd Fawr). Dylai defnyddiwr y groesfan sebra groesi pan fo'r traffig wedi stopio ac nid oes modd rheoli'r math hwn o ymddygiad.*

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth](http://www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at [cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link.

